# Cynorthwyo unigolion i adnabod eu risg cam-drin domestig neu drais rhywiol

## Trosolwg

Mae’r safon hon yn ymwneud â’ch gallu i helpu unigolion i adnabod eu risg cam-drin domestig neu drais rhywiol, a’u hannog i ymgysylltu â’r cymorth y gallwch ei gynnig. Mae hyn yn cynnwys eich gallu i farnu ynghylch y tebygolrwydd y byddant yn destun ailerledigaeth, ar sail eich asesiad o amgylchiadau’r unigolion a’r risgiau iddynt.

Fel rhan o’r safon hon, bydd angen i chi allu gweithio gyda phobl nad ydynt yn cydnabod eu bod yn ddioddefwyr cam-drin domestig neu drais rhywiol, yn ogystal â phlant a phobl ifanc mewn perygl.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cytuno ar eich amcanion gyda phobl berthnasol eraill wrth roi cymorth i unigolion sydd mewn perygl o ailerledigaeth, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
2. rhoi gwybod i unigolion am eich rôl, eich cyfrifoldebau a'ch amcanion, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
3. gydag unigolion, archwilio'u sefyllfa i lywio'ch dealltwriaeth o'u risgiau a'u hanghenion, gan gynnwys ffactorau sy'n effeithio ar lefelau risg
4. pennu lefelau risg i unigolion yn unol â phrosesau asesu risg dynamig, gan gynnwys risgiau:
   - ailerledigaeth
   - erledigaeth eilaidd
   - gorfodaeth
   - cyflenwi dioddefwyr eraill
5. asesu ffactorau sy'n effeithio ar risgiau i unigolion yn unol â phrosesau asesu risg
6. rhoi gwybod i bobl berthnasol eraill am bryderon risg brys i unigolion, yn unol â pholisïau cyfathrebu ac adrodd
7. esbonio wrth unigolion ganlyniadau posibl risg a nodwyd, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
8. gydag unigolion, archwilio sut gall y cymorth y byddwch yn ei ddarparu helpu i leihau risg cam-drin domestig neu drais rhywiol iddynt, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau
9. nodi camau a all leihau risg i unigolion, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau eich sefydliad
10. annog unigolion i weithredu er mwyn osgoi risg cam-drin domestig neu drais rhywiol yn unol â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau
11. nodi mesurau diogelu i atal cam-drin unigolion ymhellach yn unol ag arweiniad sydd ar gael
12. gwneud atgyfeiriadau ar gyfer gweithdrefnau diogelu a nodwyd, fel y bo angen, i leihau risg i unigolion yn unol â pholisïau a gweithdrefnau
13. darparu gwybodaeth i unigolion sy'n caniatáu iddynt wneud dewisiadau gwybodus am weithredoedd a all leihau'r risg cam-drin domestig neu drais rhywiol iddynt
14. esbonio wrth unigolion pam y gall fod angen mynd yn groes i'w dymuniadau

wrth wneud atgyfeiriadau yn unol â pholisïau a gweithdrefnau

15. atgyfeirio sefyllfaoedd i eraill i'w hasesu ymhellach pan fydd gweithredoedd y tu hwnt i'ch rôl a'ch cyfrifoldebau

16. cyfathrebu ag unigolion mewn amgylcheddau priodol a diogel

17. gweithio gydag unigolion mewn ffyrdd sy'n cefnogi dealltwriaeth gyffredin ac sy'n:

- annog cyfathrebu agored a gonest
- dangos empathi tuag at sefyllfa'r unigolion

18. cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau deddfwriaethol a sefydliadol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. gofynion cyfreithiol, sefydliadol a pholisi sy’n berthnasol i’ch rôl chi, i rôl pobl eraill yn eich sefydliad ac i’r gweithgareddau sy’n cael eu cyflawni
2. y canllawiau, y polisïau a’r gweithdrefnau lleol a chenedlaethol perthnasol sydd ar gael a sut a phryd y dylid troi atynt
3. rôl asiantaethau allanol a rhanddeiliaid sy’n darparu gwasanaethau a chymorth i unigolion sydd wedi cael eu heffeithio gan gam-drin domestig neu drais rhywiol yn eich ardal
4. cyfyngiadau eich awdurdod, eich cyfrifoldeb a’ch cymhwysedd proffesiynol
5. pwy y dylech roi gwybod iddynt pan na allwch gefnogi unigolion o fewn eich rôl a’ch awdurdod
6. cymorth proffesiynol a gwasanaethau sydd ar gael i unigolion pan fyddwch wedi dod i ddiwedd cymhwysedd proffesiynol eich rôl
7. arddulliau a ffurfiau cyfathrebu gwahanol a sut i’w haddasu i fodloni anghenion yr unigolyn
8. rhwystrau cyffredin rhag cyfathrebu a ffyrdd o’u goresgyn
9. teimladau ac ymatebion unigolion a allai rwystro’u gallu i drafod eu profiadau
10. pwysigrwydd meithrin ffydd ac empathi gydag unigolion, a dulliau o gyflawni hyn
11. pwysigrwydd trin unigolion gyda sensitifrwydd, hyblygrwydd a pharch
12. yr effaith y gall eich gwerthoedd a’ch credoau ei chael ar eich ymgysylltiad ag unigolion
13. pwysigrwydd osgoi risg wrth ymgysylltu ag unigolion a’u cefnogi, a sut i’w wneud, gan gynnwys lleoliadau diogel a defnyddio cyfathrebu electronig yn briodol
14. pwysigrwydd herio agweddau ac ymddygiad gwahaniaethol neu a allai fod yn niweidiol, a sut i wneud hynny
15. rôl ac effaith yn gysylltiedig â cham-drin domestig neu drais rhywiol
16. beth yw cam-drin domestig neu drais rhywiol, a pha mor gyffredin ydyw yn y gymuned
17. beth yw ailerledigaeth a’r ffactorau a all waethygu hyn
18. sut i gymhwyso ymarfer ystyriol o drawma yn eich maes gwaith
19. gwahanol ymatebion i drawma a’u heffaith
20. beth yw meithrin perthynas amhriodol gydag unigolion a sut gellir adnabod hyn
21. beth yw erledigaeth eilaidd a’r effaith ar unigolion

22. ffactorau sy'n llywio eich dealltwriaeth o sefyllfaoedd unigolion, gan gynnwys:
23. berthynas â chamdriniwr neu gamdrinwyr
24. trefniadau ac amgylchedd byw
a. sefyllfaoedd teuluol a phersonol
b. sefyllfa ariannol
c. iechyd corfforol a meddyliol
d. eu hagweddau, eu credoau, eu hyder a'u hanghenion
25. ffactorau sy'n cynyddu risg i unigolion, gan gynnwys defnyddio cyfryngau ar-lein
26. sut gall risg gael ei leihau neu ei osgoi, gan gynnwys trwy atgyfeiriadau
27. ffactorau sy'n effeithio ar erledigaeth eilaidd a sut i adnabod y rhain
28. gwahanol fathau o wybodaeth a'u ffynonellau, yn berthnasol i unigolion sudd wedi cael eu heffeithio gan gam-drin domestig neu drais rhywiol a sut i gael at y rhain
29. anghenion gwybodaeth a chymorth cyffredin unigolion sydd wedi cael eu heffeithio gan gam-drin domestig neu drais rhywiol
30. y camau sy'n angenrheidiol pan nodir bod trais yn cael ei ddatgelu
31. mesurau a gweithdrefnau diogelu angenrheidiol
32. sut i wneud atgyfeiriadau i gael at fesurau a gweithdrefnau diogelu, gan gynnwys atgyfeiriadau i sefydliadau eraill
33. yr amgylchiadau pan fydd angen mynd yn groes i ddymuniadau datganedig unigolion
34. pwysigrwydd sicrhau bod unigolion yn deall pam nad yw eu dymuniadau yn cael eu bodloni
35. prosesau a chamau'r system cyfiawnder troseddol y mae unigolion yn ymgysylltu â nhw
36. sut i rannu gwybodaeth mewn ffyrdd sy'n caniatáu i unigolion wneud dewisiadau gwybodus

## Geirfa

**Cam-drin Domestig**
Patrwm o ymddygiad rheolaethol, ymddygiad gorfodaethol, ymddygiad bygythiol, trais neu gamdriniaeth rhwng pobl sy'n 16 oed neu'n hŷn sydd, neu a fu, yn bartneriaid clos neu'n aelodau teulu, ni waeth beth yw eu rhywedd neu eu rhywioldeb. Gall y cam-drin gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, gyfuniad o gam-drin seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol ac emosiynol.

Mae'r diffiniad hwn hefyd yn cynnwys trais ar sail 'anrhydedd' fel y'i gelwir, anffurfio organau cenhedlu benywod a phriodas dan orfod. Mae plant hefyd yn cael profiad o gam-drin domestig pan fyddant yn dyst i gam-drin domestig.

**Croestoriadedd**
Natur gysylltiedig categoreiddiadau cymdeithasol fel hil, dosbarth a rhywedd, yr ystyrir eu bod yn creu systemau gwahaniaethu neu anfantais sy'n gorgyffwrdd ac sy'n gyd-ddibynnol

**Dull dan arweiniad anghenion**
Math o eiriolaeth sy'n gosod y goroeswr yn ganolog i ymyriadau a gwaith cymorth. Mae hyn yn golygu gwrando ar eu hanes, eu pryderon a'u hanawsterau, a nodi cryfderau. Mae'n arwain at gynhyrchu pecynnau cymorth yn gydgynhyrchiol, sy'n benodol i anghenion unigol goroeswyr. Mae dull dan arweiniad anghenion yn ymdrech ymrymusol sy'n talu sylw i amgylchiadau croestoriadol goroeswyr, gan osgoi maglau rhagfarn sefydliadol neu ymatebion aneffeithiol.

**Dull seiliedig ar gryfderau**
Cydnabod bod gan unigolion gryfderau. Cydnabyddir y cryfderau hyn ac adeiladir arnynt fel rhan o gynorthwyo ag adfer.

**Pobl mewn perygl**
Unigolyn y diffinnir bod arno angen gofal, cymorth neu amddiffyniad arbennig oherwydd oedran, anabledd, risg cam-drin neu esgeulustod

**Trais Rhywiol (gweler hefyd ddiffiniadau isod y gellir eu defnyddio sy'n ymwneud â cham-drin rhywiol neu ymosodiad rhywiol)**
Yn debyg o ran ei natur i gam-drin rhywiol, ond defnyddir y term hwn yn fwy aml i ddisgrifio digwyddiadau byr neu unigol, megis ymosodiad rhywiol gan ddieithryn.

**Cam-drin Rhywiol**

Ymddygiad rhywiol digroeso gan un person tuag at berson arall. Mae hwn yn aml yn cael ei gyflawni trwy rym neu trwy gymryd mantais ar y person arall. Defnyddir y term hwn yn gyffredinol pan fydd yr ymddygiad rhywiol yn rheolaidd neu'n digwydd dros gyfnod estynedig.

**Ymosodiad Rhywiol**

Unrhyw ymddygiad rhywiol digroeso nad yw person wedi cydsynio iddo. Gall hyn amrywio o drais i voyeuriaeth i orchestu, i gyffwrdd digroeso dros neu o dan ddillad.

**Ymarfer Ystyriol o Drawma**

Ymagwedd at ymyriadau iechyd a gofal sydd â'i sail mewn deall bod amlygiad i drawma'n gallu effeithio ar unigolyn. Bydd ymarferwyr yn gweithio mewn ffyrdd nad ydynt yn ailachosi trawma yn anfwriadol i'r unigolyn, ac mae pwyslais ar ddiogelwch, dewis, cydweithrediad a grymuso.

SFJGK515

Cynorthwyo unigolion i adnabod eu risg cam-drin domestig neu drais rhywiol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Justice |
| **Fersiwn rhif** | 3 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 26 Mai 2023 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 26 Mai 2028 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Justice |
| **RCU gwreiddiol** | SFJGK515 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Eiriolydd Annibynnol ynghylch Trais Rhywiol, Gweithiwr Lloches, Gweithiwr Argyfwng, Cynghorydd Annibynnol Trais Domestig (IDVA) |
| **Cyfres/Set** | Atal a mynd i'r afael â cham-drin domestig a thrais rhywiol |
| **Geiriau Allweddol** | cyngor; annibynnol; eiriolaeth; tystion; risg; asesiad; ailerledigaeth; cam-drin; unigolion |